

Diogelwch:

Cod Ymddygiad Ymwelwyr

Awst 2019 (fersiwn 7.0)

Cynnwys

1. Nod	2
2. Telerau mynediad	3
3. Gweithdrefnau	5
4. Cymryd rhan mewn gwrthdystiadau ar ystâd y Senedd	7
5. Rhagor o Wybodaeth	9
Atodiad A: Eitemau Gwaharddedig	11
Atodiad B: Kirpanau	12
Atodiad C - Cyfundrefn Chwilio Amodau Mynediad	13



1. Nod

1.1. Nod Cod Ymddygiad Ymwelwyr Senedd Cymru ("y Cod") yw sicrhau:

- 1.1.1. Diogelwch, lles a diogeledd yr holl randdeiliaid gan gynnwys staff, ymwelwyr, contractwyr a'r cyhoedd;
- 1.1.2. Diogelwch a diogeledd ystâd Senedd Cymru ("ystâd y Senedd"); a
- 1.1.3. Bod busnes Senedd Cymru ("y Senedd") yn parhau'n ddi-dor.

1.2. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i'r holl dir ac adeiladau sy'n eiddo i Senedd Cymru, neu'n cael eu prydlesu, eu meddiannu neu eu rhentu gan Senedd Cymru (ystâd y Senedd).

1.3. At ddibenion y cod hwn, diffinnir ymwelydd fel unrhyw un sy'n mynd i ystâd Senedd Cymru ac nid yw'n ddeiliad pàs adeilad achrededig sydd wedi'i fetio.

2. Telerau mynediad

2.1. Mae'n rhaid i ymwelwyr:

2.1.1. Gytuno i gydymffurfio â'n cyfundrefn chwilio diogelwch 'amodau mynediad'. Mae hyn yn cynnwys sgrinio diogelwch personol, chwilio a sganio unrhyw eitemau y maen nhw'n dymuno dod â hwy i Ystâd y Senedd. Bydd methu â chydymffurfio â'n system chwilio 'amodau mynediad' yn arwain at wrthod mynediad.

Gweler Atodiad C - Cyfundrefn Chwilio Amodau Mynediad.

2.1.2. Cytuno i adael eitemau gwaharddedig (neu unrhyw eitemau a nodwyd gan y staff diogelwch, yn ôl eu disgrisiwn, fel rhai anaddas) yn y mynedfeydd, gan nad yw'r rhain yn cael eu caniatáu ar Ystâd y Senedd yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn adran 3 isod.

2.1.3. Dilyn unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol gan staff y Senedd.

2.1.4. Gwacáu'r adeilad cyn i'r adeilad gau neu yn ôl cyfarwyddyd staff diogelwch.

2.1.5. Rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad neu eitemau amheus i'r staff diogelwch neu, os nad oes staff diogelwch ar gael, unrhyw aelod o staff y Senedd.

2.1.6. Dilyn unrhyw weithdrefnau gwacáu brys megis ar adeg seinio'r larwm tân.

2.2. Ni chaniateir i ymwelwyr:

2.2.1. Ddod ag unrhyw eitemau gwaharddedig ("Eitemau Gwaharddedig") nac eitemau sy'n anaddas yn ôl y staff diogelwch ar ystâd y Senedd. Bydd unrhyw eitemau gwaharddedig a gyflwynir ar ôl cyrraedd yn cael eu cadw gan staff diogelwch yn y fynedfa (yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn adran 3 isod). Gweler Atodiad A am ddiffiniad o Eitemau Gwaharddedig.

2.2.2. Dod â bagiau mawr, bagiau teithio ac eitemau mawr eraill i ystâd y Senedd. Caiff eitemau o'r fath eu cadw gan y staff diogelwch oni bai eu bod yn angenrheidiol at ddiben yr ymweliad a'u wedi cymeradwyo'n ffurfiol ymlaen llaw, neu eu cymeradwyo gan y staff diogelwch yn ôl eu disgrisiwn ar y dydd.

- 2.2.3. Dod â hylifon/diodydd agored i ystâd y Senedd. Am resymau iechyd a diogelwch, bydd gofyn i ymwelwyr sy'n dod i'r Senedd â diodydd sydd wedi'u hyfed yn rhannol mewn cynwysyddion agored i orffen y ddiodydd honno cyn dod drwy'r gwiriad diogelwch. Bydd gofyn i ymwelwyr sy'n dod i'r Senedd â chynhwysydd â chaead yfed rhywfaint o'r ddiodydd i brofi nad yw'n cynnwys unrhyw beth gwenwynig neu niweidiol. Ac eithrio anghenion meddygol neu grefyddol, dim ond bwyd a diodydd a brynir yng Nghaffi'r Senedd y gellir eu bwyta ar y safle.
- 2.2.4. Dod ag unrhyw anifeiliaid i Ystâd y Senedd gyda nhw oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan staff diogelwch. Mae enghraifft o anifail a ganiateir yn cynnwys cŵn cymorth neu gŵn therapi.
- 2.2.5. Ymgysylltu ag unrhyw weithgareddau a allai beryglu diogelwch neu ddiogeledd Senedd Cymru neu unrhyw rai o'i randdeiliaid.
- 2.2.6. Cymeradwyo, gweiddi neu ymddwyn mewn ffordd a allai darfu ar drafodion y Senedd neu fusnes cyffredinol y Senedd.
- 2.2.7. Dangos baneri, placardiau, sloganau neu bosteri yn groes i adran 4 o'r Cod hwn (sy'n ymwneud â gwrthdystiadau).
- 2.2.8. Defnyddio camerâu, offer recordio neu sain mewn ardaloedd cyfyngedig. Mae ardaloedd cyfyngedig yn cynnwys yr holl barthau diogelwch a'r orielau cyhoeddus yn ystod trafodion y Senedd. Gellir cytuno i recordiadau os cytunir arnynt ymlaen llaw.
- 2.2.9. Gadael unrhyw eiddo heb neb i ofalu amdano.
- 2.2.10. Mynd i unrhyw ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer 'staff yn unig' neu sy'n gyfyngedig fel arall, oni bai bod aelod o staff y Senedd yn eich hebrwng.
- 2.2.11. Defnyddio ardaloedd cyhoeddus o Ystâd Senedd Cymru at ddibenion codi arian neu ar gyfer budd masnachol heb ganiatâd blaenorol Comisiwn y Senedd.
- 2.2.12. Defnyddio alcohol ar yr ystâd oni bai eich bod yn mynychu digwyddiad a drefnwyd lle mae alcohol wedi'i ddarparu ar ôl 6pm. Wrth yfed alcohol fel rhan o ddigwyddiad, rhaid i bob ymwelydd wneud hynny yn gyfrifol a pharhau i ymddwyn mewn modd priodol yn unol â'r cod hwn.
- 2.2.13. Ysmygu, defnyddio fêp neu sigarêts electronig tra eich bod o fewn un o adeiladau'r Senedd

Mae'r Senedd yn adeilad seneddol gweithredol a phan fyddwch y tu mewn i'r Senedd, mae'n rhaid ichi:

- 2.3.1. Ddiffodd unrhyw offer electronig os bydd aelod o staff y Senedd yn gofyn ichi wneud hynny.
- 2.3.2. Bod yn dawel wrth fynd i mewn ac allan o'r orielau cyhoeddus ac wrth gerdded o'u hamgylch ac wrth eistedd ynddynt.
- 2.3.3. Cydymffurfio â phob arwydd a dilyn pob cyfarwyddyd rhesymol gan Staff y Senedd bob amser.

2.4. Mae Senedd Cymru yn cadw'r hawl i:

- 2.4.1. Gwrthod mynediad i unigolion neu wrthod caniatáu dod ag eitemau anaddas i'r adeilad.
- 2.4.2. Gwrthod mynediad i unigolion sydd dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, neu sy'n ymddangos i fod dan ddylanwad sylweddau o'r fath.
- 2.4.3. Gofyn i unrhyw unigolion sy'n ymddwyn yn amhriodol a/neu'n peryglu diogelwch eraill i adael. Mae tresmasu ar ystâd Senedd Cymru yn drosedd. Mae Senedd Cymru yn safle warchoddedig o dan adran 128 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.
- 2.4.4. Rheoli uchafswm nifer yr ymwelwyr a ganiateir yn yr adeilad ar un adeg ar gyfer rhesymau iechyd a diogelwch neu resymau gweithredol.

3. Gweithdrefnau

3.1. Eitemau na chânt eu caniatáu ar ystâd y Senedd:

- 3.1.1. Caiff Eitemau Gwaharddedig ac eitemau a nodir gan y staff diogelwch fel rhai sy'n anaddas ar gyfer ystâd y Senedd:
 - eu cadw gan staff diogelwch wrth y fynedfa yn ystod yr ymweliad; neu
 - eu cyfeirio at Uned Blismona Senedd Cymru Uned (WPPU) /("UBSC" yn Gymraeg)*.
- 3.1.2. Mae penderfyniad y staff diogelwch i gadw, cymryd ymaith neu gyfeirio eitemau at WPPU/UBSC yn ôl eu disgrisiwn.
- 3.1.3. Bydd unrhyw eitemau a gedwir yn cael eu cadw gan y staff diogelwch yn ystod yr ymweliad a gellir eu casglu pan fyddwch yn gadael.
- 3.1.4. Gall WPPU/UBSC yn unol â'i gweithdrefnau, gynnal ymchwiliadau pellach ar eitemau a gyfeirir i'r Uned, fel sy'n briodol. Gall yr Uned atafaelu a chadw'r eitem hyd nes ei bod wedi gorffen ei hymchwiliadau. Gall yr ymchwiliad barhau yn hwy na'r ymweliad, ac yn yr achos hwnnw ni allwch fynd â'r eitem gyda chi pan fyddwch yn gadael.

3.2. Gwrthrychau miniog a gwrthrychau â llafn ar ystâd y Senedd:

- 3.2.1. Er mwyn sicrhau diogelwch staff ac ymwelwyr, ni ellir dod â gwrthrychau miniog a gwrthrychau â llafn ar ystâd y Senedd, oni chânt eu caniatáu fel arall gan y Cod hwn.
- 3.2.2. Mae gwrthrychau miniog a gwrthrychau â llafn yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, gyllyll, cylllyll poced, sisyrnau, cylllyll cardiau a gwrthrychau â llafn sengl o unrhyw faint.
- 3.2.3. Caiff gwrthrychau miniog a gwrthrychau â llafn nad ydynt wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw naill ai:
- eu cadw ym manau chwilio'r tîm diogelwch, i'w nôlpan fydd y perchennog yn gadael; neu
 - eu hatafaelu (fel yr amlinellir yn adran 3.1.4 uchod).
- 3.2.4. Yn amodol ar ymgynghori ymlaen llaw, gellir rhoi ystyriaeth i ganiatáu rhai gwrthrychau a llafnau penodol ar Ystâd y Senedd os ydynt yn cael eu cario:
- At ddibenion crefyddol.

Mae'n bosibl y caniateir gwrthrychau miniog a llafnau sy'n ymwneud â chrefyddau yn amodol ar ymgynghori a chymeradwyaeth ymlaen llaw gan staff diogelwch.

Gweler 'Atodiad B' mewn perthynas â Kirpanau

- Fel rhan o wisg seremonïol os yw'r person ar ymweliad/swyddogaeth a drefnwyd ymlaen llaw a'i fod wedi cael cymeradwyaeth ymlaen llawn gan staff diogelwch (e.e. cleddyfau milwrol seremonïol).
 - Gan gontractwyr neu aelodau'r cyhoedd ar gyfer tasg neu ddiben dilys mewn cysylltiad â chrefft, busnes neu weithgarwch y maent yn ymweld ag ystâd y Senedd i'w gyflawni. Rhaid i hyn gael ei awdurdodi gan randdeiliad mewnol a'i drefnu ymlaen llaw gyda staff diogelwch.
- 3.2.5. Mae staff diogelwch yn cadw'r hawl i nodi'r holl eitemau gwaharddedig sy'n cael mynediad, gan gofnodi pan fyddant yn cael mynediad i'r ystâd ac yn ei adael.
- 3.2.6. Os bydd y staff diogelwch yn amau y gallai cylllell fod yn anghyfreithlon oherwydd ei maint neu ei math, bydd y tîm yn gofyn am gyngor gan WPPU/UBSC. Yna, caiff y gyllell ei thrin yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 3.1.4 uchod.

4. Cymryd rhan mewn gwrthdystiadau ar ystâd y Senedd

- 4.1. Mae gwrthdystiadau'n cynnwys protestiadau unigol, protestiadau grŵp, ymgasgliadau, raliâu, gorymdeithiau, protestiadau ymprydio a gwylnosau, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain.
- 4.2. Mae'r Senedd yn credu yn yr egwyddor sylfaenol o ryddid mynegiant. Mae'r Senedd yn croesawu gwrthdystiadau cyfreithlon a heddychlon ar ei ystâd, a bydd yn cymryd camau rhesymol i'w hwyluso.
- 4.3. Diben y rheolau yn y Cod hwn yw sicrhau y caiff gwrthdystiadau o'r fath eu cynnal mewn ffordd nad yw'r tarfu ar:
 - 4.3.1. Busnes y Senedd;
 - 4.3.2. Hawliau, diogelwch a lles staff y Senedd;
 - 4.3.3. Hawliau, diogelwch a lles pobl eraill sy'n ymweld ag ystâd y Senedd.
- 4.4. Prif Weithredwr a staff y Senedd sy'n gyfrifol am orfodi rheolau'r Cod. Caiff trefnwyr gwrthdystiadau arfaethedig eu hannog i gysylltu â Phennaeth Gwasanaeth Diogelwch y Senedd i drafod trefniadau addas a chytuno arnynt.
- 4.5. Gellir cynnal gwrthdystiadau **y tu allan** i adeiladau'r Senedd os ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau a nodir yn y cod ymddygiad hwn.
- 4.6. Mae'r rheolau i'w dilyn gan gyfranogwyr ym mhob gwrthdystiad ar draws Ystâd Senedd Cymru fel a ganlyn:
 - 4.6.1. Ni chaniateir i wrthdystwyr ymyrryd â busnes y Senedd na tharfu arno.
 - 4.6.2. Ni chaniateir i wrthdystwyr atal eraill rhag mynd i mewn ac allan o safleoedd y Senedd, na pheryglu eu diogelwch eu hunain na diogelwch eraill.
 - 4.6.3. Mae'n rhaid i gyfranogwyr ymgynnull, aros a gwasgaru mewn ffordd drefnus.
 - 4.6.4. Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig cynrychiolydd dynodedig y Senedd y gellir defnyddio offer ehangu sain. Pan gaiff caniatâd ei roi, mae'n rhaid i'r offer gael ei

gyfeirio i ffwrdd oddi wrth adeiladau'r Senedd ac ni ddylent gael eu defnyddio mewn ffordd sy'n tarfu ar y gweithgareddau ar yr ystâd.

- 4.6.5. Gall yr UHSC/ y (WPPU), neu staff diogelwch gyfyngu gwrthdystiad i ardal benodol yn unig. Mae'n rhaid i gyfranogwyr barchu unrhyw rwystrau a osodir at y diben hwn.
- 4.6.6. Ni chaniateir i allanfeydd tân o adeiladau'r Senedd gael eu rhwystro.
- 4.6.7. Nid oes cyfyngiad ar arddangos arwyddion neu faneri a ddelir â llaw ar y rheini sy'n cymryd rhan mewn gwrthdystiadau gynhelir y tu allan i adeiladau Senedd, ar yr amod bod eu cynnwys yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol cyffredinol.
- 4.6.8. Ni chaniateir i arwyddion, baneri, placardiau, sloganau na phosteri gael eu gosod, ysgrifennu, llunio, paentio, na'u marcio ar unrhyw ran o ystâd y Senedd.
- 4.6.9. Ni chaniateir dod ag arwyddion, baneri, placardiau, sloganau, poster, chwibanau, cynn, clacsonau, rhaffau, clymau cebl, gefynnau neu ddyfeisiau tebyg i mewn i adeiladau Senedd.
- 4.6.10. Rhaid i ddillad â slogan neu logo sy'n ymwneud â phrotest benodol beidio â chael eu gwisgo y tu mewn i adeiladau'r Senedd.
- 4.6.11. Ni chaniateir codi unrhyw strwythur (gan gynnwys unrhyw babell neu gysgodfa arall) ar unrhyw ran o ystâd y Senedd.
- 4.6.12. Ni all unrhyw wrthdystiad bara am fwy nag un diwrnod gwaith arferol. Ni chaniateir gwerysyla ar ystâd y Senedd.
- 4.6.13. Pan gaiff cyfranogwyr ganiatâd i ddod i mewn i un o adeiladau'r Senedd (p'un a y cawsant eu gwahodd gan Aelod o'r Senedd ai peidio), ni ddylent aros yno'n hwy na'r oriau agor arferol.
- 4.6.14. Er mwyn cynnal diogelwch a sicrhau nad amherir ar fusnes y Senedd, dim ond dirprwyaeth (grŵp o gynrychiolwyr) gyfyngedig a gaiff ddod i mewn i adeiladau'r Senedd, boed hwy wedi eu gwahodd gan Aelod o'r Senedd ai peidio. Fel rheol gyffredinol, ni ddylai'r grŵp fod yn ddim mwy na 6 pherson ar unrhyw adeg, fodd bynnag, mae hyn ar ddisgresiwn y Pennaeth Diogelwch (neu berson arall dirprwyedig) mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid eraill, ar ôl ystyried trosolwg o'r amgylchiadau penodol i sicrhau y bydd parhad busnes yn flaenoriaeth bob amser.
- 4.6.15. Ar ystâd y Senedd, ni chaniateir i gyfranogwyr:
 - paratoi na gwerthu bwyd, diod nac eitemau eraill; na
 - yfed unrhyw alcohol;
 - gwneud unrhyw ymgais i amharu ar fusnes y Senedd;
 - cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a allai beryglu iechyd, diogelwch neu les unrhyw rhanddeiliaid.
- 4.6.16. Ni chaniateir i gerbydau gael eu defnyddio fel rhan o wrthdystiad. Ni ddarperir cyfleusterau parcio ar gyfer gwrthdystwyr.

- 4.6.17. Ni chaniateir fflamau agored (gan gynnwys Tanau a Chanhwyllau) ar Ystâd y Senedd.
- 4.6.18. Ni chaniateir marcio arwynebau yn fwriadol ar Ystâd y Senedd a gallai arwain at erlyniad troseddol yn unol â'r gyfraith berthnasol.
- 4.6.19. Bydd unrhyw unigolyn sy'n cynnal ympryd fel rhan o'i wrthdystiad yn cael ei reoli yn unol â phrotocolau Ymprydio'r Senedd a allai gynnwys gwrthod mynediad iddo i adeiladau'r Senedd.

4.7. Bydd methu â chydymffurfio â'r rheolau yn y Cod hwn yn golygu y gall fod angen diddymu'r caniatâd i gynnal y gwrthdystiad ar ystâd y Senedd, ac felly gofynnir i wrthdystwyr adael. Os byddant yn gwrthod gwneud hynny, cânt eu hystyried fel tresmaswyr. Mae gan y Senedd yr hawl i gymryd camau cyfreithiol priodol i gael gwared ar unrhyw dresmaswyr o ystâd y Senedd. Mae tresmasu ar ystâd Senedd Cymru yn drosedd. Mae Senedd Cymru yn safle warchoddedig o dan adran 128 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.

5. Rhagor o Wybodaeth

- 5.1. Mae Senedd Cymru yn gweithredu teledu cylch cyfyng ar draws yr ystâd. Mae delweddau'n cael eu monitro a'u cofnodi at ddibenion atal troseddu a diogelwch y cyhoedd.
- 5.2. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cod hwn, ei gymhwyso neu i roi gwybod i ni am wrthdystiad arfaethedig, siaradwch ag aelod o'r Tîm Rheoli Diogelwch.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Uwch Dîm Rheoli Diogelwch ar 0300 200 6555 neu e-bostiwch security.advice@senedd.cymru

Perchennog y Polisi

Kevin Tumelty, Pennaeth Diogelwch

Awdur y Polisi

James Attridge, Uwch Rhoelwr Diogelwch

Dyddiad Cyhoeddi

Awst 2019 (fersiwn 7.0)

Dyddiad Adolygu Arfaethedig

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob dwy flynedd, neu yn y cyfamser lle y bu newid o ran polisi neu

ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y Cod hwn.

Atodiad A: Eitemau Gwaharddedig

At ddibenion y Cod hwn, mae 'Eitemau Gwaharddedig' yn cynnwys eitemau y gellid eu defnyddio fel arf, eitemau a allai achosi pryder neu ofn i randdeiliaid neu eitemau a allai achosi tarfu ar Fusnes y Senedd, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt. Mae hyn yn cynnwys:

1. unrhyw ddrylliau neu ddrylliau ffug;
2. unrhyw arfau neu arfau replica;
3. ffagliadau neu ynnau cychwyn;
4. unrhyw ffrwydrion, roced, tân gwyllt neu fwledi;
5. unrhyw fwa neu groesfwa neu unrhyw beth a all ryddhau ergyd farwol;
6. unrhyw arf o ba bynnag ddisgrifiad sydd wedi'i ddylunio neu wedi'i addasu i ryddhau unrhyw hylif, nwy neu unrhyw beth arall niweidiol;
7. dyrnau haearn;
8. tuniau nwy;
9. tuniau mwg;
10. Sialc, beiros, paent neu chwystrelli aerosol (oni bai eu bod yn angenrheidiol at ddibenion busnes ac wedi'u cymeradwyo ymlaen llawn neu gan aelod o dîm diogelwch y Senedd ar y dydd);
11. Cyllyll, cleddyfau neu wrthrychau miniog neu wrthrychau eraill â llafn;
12. unrhyw gyffuriau a reolir fel y'u rhestrir yn y ddeddfwriaeth gyfredol ar Gamddefnyddio Cyffuriau;
13. unrhyw eitem arall y gellid ei ystyried yn arf ymosodol yn y ddeddfwriaeth gyfredol ar Atal Troseddu;
14. unrhyw gemegion peryglus neu bowdrau neu wenwynau niweidiol; Mae hyn yn cynnwys unrhyw gemegyn neu bowdwr a fwriedir iddo ddynwared sylwedd peryglus neu achosi pryder;
15. cyfarpar cysylltiedig â phrotest yn cynnwys arwyddion, baneri, placardiau, sloganau, posteri, chwibanau, cynrn, clacsonau, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;
16. rhwystrau cysylltiedig â phrotest gan gynnwys tâp, rhaff, clymau cebl, gefynnau;
17. balwnau;
18. fflachlampau neu binnau laser.
19. Anifeiliaid – oni bai y cânt eu cymeradwyo gan staff diogelwch. Mae enghreifftiau o anifeiliaid a ganiateir yn cynnwys cŵn therapi neu gŵn cymorth.

Atodiad B: Kirpanau

3.2.7 Mae'n rhaid i gyllyll a nodir fel 'kirpan':

1. Cael eu rhoi i'r tîm diogelwch a fydd yn darparu 'kirpan' fach yn ei lle i'r ymwelydd ei defnyddio yn ystod yr ymweliad.
2. Yna, bydd yr ymwelydd yn cael rhif adnabod unigryw i sicrhau ei fod yn cael y 'kirpan' gywir ar ôl dychwelyd.
3. Caiff y 'kirpan' ei chadw'n ddiogel mewn amlen/poced blastig a'i labelu'n glir. Yn ddelfrydol, os bydd ar gael, caiff lliain glân ei ddefnyddio i lapio'r 'kirpan' yn yr amlen/poced blastig.
4. Cyn gadael yr adeilad, mae'n rhaid i'r ymwelydd gasglu ei 'kirpan', llofnodi i ddweud ei fod wedi'i chael arhoi'r 'kirpan' fach yn ei hôl.

Atodiad C - Cyfundrefn Chwilio Amodau Mynediad

- Mae pob ymwelydd yn destun chwiliad 'amodau mynediad' wrth fynd i mewn i ystâd Senedd Cymru.
- Bydd unrhyw eitemau a waharddir a ganfyddir yn ystod y broses hon yn cael eu cadw yn unol ag adran 3 y cod.
- Bydd methu â chydymffurfio â'n system chwilio 'amodau mynediad' yn arwain at wrthod mynediad.
- Bydd unrhyw ymgais fwriadol i ddod ag eitemau gwaharddedig ar yr ystâd yn arwain at wrthod mynediad.
- Rhaid trafod unrhyw eithriadau i'r gyfundrefn chwilio 'amodau mynediad' ymlaen llaw gyda'r tîm rheoli diogelwch.
- Mae'r Senedd yn cydnabod y gall fod angen ystyried mewn rhai amgylchiadau, anghenion crefyddol, meddygol neu sensitif eraill. Yn yr achosion hyn, dylai ymwelwyr roi gwybod am eu hanghenion i'r staff diogelwch.
- Rhaid trefnu unrhyw eitemau sy'n ofynnol ar gyfer digwyddiad, cyfarfod neu gynulliad arall gyda'r adran ddiogelwch ymlaen llaw er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r trefniadau chwilio priodol ar waith. Gan ddibynnu ar yr eitemau sydd eu hangen ac amgylchiadau'r digwyddiad, efallai y codir tâl am chwilio.
- Rhaid i unrhyw anghenion mewn perthynas ag ymweliadau VIP gael eu trafod â'r Tîm Rheoli Diogelwch ymlaen llaw cyn ymweliad er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw drefniadau arbennig.
- Mae'r Senedd yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i eitemau nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddiogel neu'n addas yn ôl disgrisiwn staff y Senedd.
- Mae'r Chwiliad Amodau Mynediad yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:
 - Chwiliad llawn o'r ymwelydd. Bydd angen tynnu cotiau, siacedi, hetiau, gemwaith, watsys a gwregysau ar gyfer y chwiliad hwn;
 - Chwilio unrhyw eitemau y mae'r ymwelydd yn eu cario fel bagiau, cotiau, gwregysau, cymhorthion cerdded, ymbarelau, cadeiriau gwthio neu unrhyw offer arall a gaiff eu cario neu eu defnyddio gan ymwelwyr;
 - Lle bydd ymwelwyr wedi trefnu mynediad i gerbyd ymlaen llaw, bydd cerbydau ac unrhyw eitemau o fewn y cerbyd hefyd yn destun chwiliad diogelwch cynhwysfawr.
- Mae'r dulliau chwilio yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
 - defnyddio sganiwr pelydr-x;
 - defnydd o wand canfod metel â llaw;

- chwiliad corfforol o berson;
- chwiliad corfforol o fag neu eitemau eraill;
- chwiliad heddlu (gan gynnwys defnyddio cŵn arbenigol);
- defnyddio offer chwilio megis drychau neu gamerâu.